CYNGOR SIR YNYS MON/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD: | 02 Rhagfyr 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Adrodd ar gyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein. |
| ADRODDIAD GAN: | Arweinydd Tîm Gwasanaethau Ar-lein |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | I adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. |

1. Cofrestr Safonol o Ddiddordebau

   Mae'r Gofrestr Safonol o Ddiddordebau wedi bod ar gael ar-lein drwy'r system e-ddemocratiaeth Modern.Gov ers dechrau mis Ionawr 2013. Rhwng Mai - Mehefin 2013, derbyniodd pob aelod etholedig hyfforddiant un-i-un ar sut i ddiweddaru'r fersiwn ar-lein. Mae'r holl aelodau'n cyhoeddi eu Cofrestr Safonol o Ddiddordebau ar-lein. Rhoddir cefnogaeth gan y Tîm Gwasanaethau Ar-lein.

2. Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

   Derbyniodd yr holl Aelodau hyfforddiant un-i-un gan y Tîm Gwasanaethau Ar-lein ym mis Mai 2013 a hysbyswyd hwy bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn iddynt lenwi'r ffurflen i mewn ar-lein fel y byddai cofrestr gyflawn o roddion a lletygarwch ar gael i'r cyhoedd.

   Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn rhestru'r cyfan o'u rhoddion a lletygarwch gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor sy'n cadw cofrestr ysgrifenedig. Nid oes unrhyw aelod wedi cysylltu â'r Tim Gwasanaethau Ar-lein am hyfforddiant pellach.

3. Cofrestr o Ddiddordebau a Ddatganwyd mewn Cyfarfodydd

   Mae'r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i Aelodau unigol lenwi eu diddordebau eu hunain a ddatganwyd mewn cyfarfodydd ond nid yw hyn yn dechnegol bosibl ar hyn o bryd trwy'r system Modern.Gov.

   Mae'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd yn cael ei chyhoeddi ar hyn o bryd drwy'r system Modern.Gov wedi i'r cofnodion gael eu cadarnhau, a thrwy hynny ganiatáu i'r cyhoedd chwilio am ddatganiad o ddiddordeb gan aelodau unigol mewn unrhyw bwyllgor, ar unrhyw ddyddiad. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhoi i mewn gan y Swyddogion Pwyllgor, Gwasanaethau Pwyllgor.